CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW
LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Fercher Awst 2il 2017 am 7.30 yr hwyr yng Nghanolfan Pandy Tudur

Ymddiheuriadau: Gwyn Williams

Presennol: Einir Williams (Is-Gadeirydd), Diane M Roberts, R Emlyn Williams, Elen H Edwards, D Gwynfor Davies, Ann O Vaughan, Gwydion Jones, Clwyd Roberts, Gerallt Evans, Cyng Garffild L Lewis a'r Clerc

69.1 Croesawyd bawb i'r cyfarfod a chroeso arbennig i'r aelodau newydd Clwyd Roberts a Gerallt Evans. Llongyfarchwyd y Cynghorydd Garffild Lewis a Sian Eirian ar eu priodas yn ddiweddar.

69.2 DATGAN CYSYLLTIAD – rhoddwyd cyfle i aelodau ddatgan cysylltiad ag eitem ar yr Agenda.

69.3 COFNODION – edrychwyd ar gofnodion cyfarfod 28ain Mehefin 2017 a PHENDERFYNWYD yn unfrydol eu bod yn gywir.

69.4 MATERION YN CODI
69.4.1 MAES CLEDWEN (68.3.1) – dywedodd y Cyngh. Garffild Lewis iddo dderbyn gohebiaeth gan Mr Gwynne Jones, Cyfarwyddwr Cartrefi Conwy yn esbonio sefyllfa gosod a gwerthu eiddo a'i fod yn barod i fynychu cyfarfod o'r Cyngor. PENDERFYNWYD gwahodd Mr Jones i gyfarfod o'r Cyngor.
Cyrhaeddodd Elen H Edwards y cyfarfod.
69.4.2 PARC GWYTHERIN (68.13.1) – bu cyfarfod safle yno gyda swyddogion o Gonwy, Einir Williams, Emlyn Williams a'r Clerc a braf yw adrodd bod y gwaith wrthi'n cael ei wneud.
69.4.3 ARWYDDION 20 MYA LLANGERNYW (68.13.7) – darllenwyd ebost a dderbyniodd Cyng Lewis yn esbonio cefndir gosod arwyddion 20 mya tu allan i ysgolion yn y Sir ac yn anffodus nid oedd yn bosib iddynt osod rhai yn Llangernyw am wahanol resymau. PENDERFYNWYD gofyn pa amser o'r dydd wnaed yr arolwg traffig yn y llan. Diolchwyd i'r Cyng Lewis am ei gymorth gyda hyn.
69.4.4 PROBLEMAU CŴN (68.13.9) – adroddwyd bod y broblem yn parhau a bod ci yn rhydd yn stad Glan Collen a pherchennog yn mynd â ci drwy gaeau'r ysgol. Angen gofyn os fedr y swyddog anfon llythyr personol at berchnogion.
Cyrhaeddodd D Gwynfor Davies y cyfarfod.

69.5 MATERION FFYRDD AC AMGYLCHEDD – PONT AFON DYFFRYN GALL
Derbyniodd Cyng Lewis wybodaeth gan yr adran ynglŷn a'r diffyg ar y bont a bod y wal yn gulach yn y canol. Teimlai'r Cyngor yn bryderus ynglŷn a chau'r bont eto a byddai angen digon o rybudd os dyna oedd raid.

69.6 MATERION CYNLLUNIO
69.6.1 Cais Rhif 0/43874 Adeilad amaethyddol arfaethedig i storio gwartheg a bwyd a gwair yn Rhos y Mawn, Llangernyw gan Mr G Williams – cais wedi ei dynnu yn ôl.

69.6.2 Cais Rhif 0/44123 Sied amaethyddol arfaethedig ar gyfer da byw ar dir yn Hafodty Bennett, Trofarth gan Mr Geraint Roberts – PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais
69.6.3 Harlequin Cottage, Llangernyw - derbyniwyd ateb gan yr Adran Cynllunio yn nodi bod y gwaith ar y porch a'r ffens yn yr Ardal Cadwraeth yn dderbyniol ganddynt wedi iddynt gael eu peintio.

69.7 AROLWG ETHOLIADOL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY – wedi trafodaeth PENDERFYNWYD i anfon y sylwadau canlynol at y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru - a) Er mwyn cael llywodraeth leol effeithiol a chyfleus credwn y dylid gadael trefniadau'r sir fel y maent oherwydd byddai ehangu'r wardiau yn ei gwneud yn aneffeithiol ac anghyfleus i gynghorwyr e.e. ardal eang iddynt deithio. b) Cydraddoldeb etholiadol – rydym yn cytuno bod hyn yn bwysig iawn a rhaid cofio bod mwy o bwysau gwaith ar gynghorwyr gwledig oherwydd pellter a nifer o gymunedau gwahanol. c) Topograffeg y tir – rhaid cofio bod y cymunedau presennol yn ffurfio eu terfynau naturiol eu hunain. ch) Y bwlch rhwng gwlad a thref – mae bwlch mawr rhwng gwlad a thref ac felly mae'n holl bwysig bod llais cefn gwlad yn cael ei glywed. Teimlwn y bydd yr iaith Gymraeg yn dioddef os bydd llai o gynrychiolaeth o gefn gwlad ar y Cyngor Sirol.
d) Dylid parchu Deddf Diogelu Lles Cenedlaethau'r Dyfodol – hynny yw dylid gofalu am bobl yng nghefn gwlad er mwyn osgoi 'unigrwydd a thlodi gwledig'.
Hefyd y Clerc i holi pa fath o arbedion a wneir wrth wneud newidiadau i'r system bresennol. Y Clerc i gysylltu â'r Cadeirydd cyn anfon y sylwadau ac i ofyn i Un Llais os oeddynt yn llunio ateb.

69.8 SWYDD Y CLERC – roedd gwybodaeth wedi dod i law ynglŷn a'r cyflog a'r grŵp bach i fod i gyfarfod yn fuan i fwrw mlaen â'r trefniadau hysbysebu.

69.9 CAIS ARIANNOL – derbyniwyd cais gan riant Grace Charles, Llangernyw am grant tuag at ran o'i hastudiaethau yn U.D.A. Wedi trafodaeth PENDERFYNWYD rhoi eitem ar Agenda cyfarfod Cronfa Bro Cernyw i drafod cynllun grant i ieuenctid i ddatblygu yn addysgiadol. PENDERFYNWYD cyfrannu £100 i Grace ac i ddweud ein bod yn gobeithio cael newid amodau'r Gronfa. Awgrymwyd i Grace ddod i roi cyflwyniad i'r Cyngor yn dilyn ei chwrs.

69.10 ARWYDDION TWRISTIAETH BROWN A THOILEDAU LLANGERNYW – oherwydd costau uchel gosod arwyddion PENDERFYNWYD yn unfrydol i adael y mater ar hyn o bryd. Hefyd i gysylltu a Steve Teale ynglŷn a thalu am y costau cyfreithiol o drosglwyddo'r toiledau. Bydd angen trosglwyddo arian dyledus tuag at y toiledau o'r Cyngor Cymuned i Fenter Bro Cernyw ar ôl mis Awst.

69.11 BLYCHAU FFÔN PANDY TUDUR A LLANGERNYW – neges gan BT yn gofyn am fanylion mabwysiadu'r blychau. PENDERFYNWYD mai'r Cyngor Cymuned fyddai'n mabwysiadu'r ddau am £1 yr un.

69.12 YSTÂD Y DIWEDDAR TECWYN EVANS – derbyniwyd llythyr gan Howell Jones Cyfreithwyr yn cyfeirio at rodd ariannol o £1,000 i'r Cyngor Cymuned i'w wario ar y mynwentydd. Y Clerc i ysgrifennu at Medwyn Evans i ddiolch ac i nodi'r rhodd yn y wasg.

69.13 PWYLLGOR MYNWENTYDD – etholwyd Gerallt Evans a Clwyd Roberts ar y Pwyllgor Mynwentydd gyda Emlyn Williams, Ann Vaughan a'r Clerc.

69.14 HSBC – derbyniwyd cyfieithiad o lythyr gan HSBC ar ein cais gan ddweud bod nodyn ar ein cofnod gyda'r banc yn dweud ein bod yn dymuno gohebu trwy gyfrwng y Gymraeg ond nad oedd yn bosib anfon pob llythyr allan yn ddwyieithog.

69.15 BAND EANG GWYTHERIN – derbyniwyd copïau o ohebiaeth gan un o drigolion y pentref am gyflwr anobeithiol y cysylltiad band eang. Roedd trafodaethau ar y gweill gyda BT a swyddogion Sir Conwy yn ymchwilio i'r mater.

69.16 CYNIGIAD I GYFARFOD BLYNYDDOL UN LLAIS CYMRU – daeth llythyr uniaith Saesneg gan y Prif Weithredwr yn mynegi na dderbyniwyd ein cynnig y tro hwn ond gan ei fod yn fater o bwys bydd y pwnc o 'ofal cymdeithasol yng nghefn gwlad' yn cael ei anfon i'r pwyllgorau rhanbarth i'w drafod er mwyn casglu mwy o wybodaeth ffeithiol. PENDERFYNWYD i ateb ei lythyr gan nodi ein siom ei fod yn lythyr uniaith Saesneg.

69.17 MATERION LLEOL
69.17.1 Angen rhoi 'Diffibrilydd' ar Agenda'r cyfarfod nesaf. Cyfeiriodd Einir Williams at 'Community Heartbeat Trust'.
69.17.2 Coed angen eu tocio wrth y bont rhwng Plas yn Trofarth a Henfryn.
69.17.3 Cangen angen ei thocio rhwng Plas yn Trofarth a Gell.
69.17.4 Clawdd wedi gordyfu yng nghyffordd Glan Rhyd, Pandy Tudur – i gyfeiriad Llanrwst.
69.17.5 Tyfiant angen ei docio yn y ffens wen yng nghyffordd Cefn Castell, Pandy Tudur.
69.17.6 Arwydd Pandy Tudur yng nghyffordd Glan Rhyd angen ei lanhau.
69.17.7 Gofynnwyd i'r Cyngh Garffild Lewis os medrai fynd o gwmpas y pentrefi gyda swyddog o'r Cyngor Sir i weld lle oedd angen gwaith.
69.17.8 Mwsog ar y palmant rhwng y Stag a giât y Fynwent ar ffordd Llansannan a mwsog ar lwybr y Fynwent.
69.17.9 Gor-yrru drwy'r pentref ac ar allt Tyn Pistyll, Llangernyw.
69.17.10 'Radiator' wedi ei adael ger Capel Cefn Coch.
69.17.11 Angen rhoi 'Rhodd er cof am Tecwyn Evans' ar Agenda'r cyfarfod nesaf.
69.17.12 Angen tocio clawdd Hendre House, Gwytherin – dod i'r ffordd ar y tro.
69.17.13 Clawdd mewnol parc Gwytherin – rhoddwyd caniatâd gan swyddog o Gonwy i wirfoddolwyr dorri'r clawdd.

69.18 GWARIANT AC INCWM – cyflwynodd y Clerc daflen yn dangos gwariant ac incwm y Cyngor dros chwarter cyntaf y flwyddyn.

69.19 BILIAU

D Evans (Pedwerydd toriad Mynwentydd)	£380
Costau Gweinyddol	£901.53
Cyllid y Wlad	£10.40

Daeth y cyfarfod i ben am 10.10 yh

Cymeradwywyd y Cofnodion .Gwyn Williams..... Dyddiad ...12 Medi 2017.....

A Meeting of the Community Council was held on Wednesday August 2nd 2017 at 7.30pm at the Pandy Tudur Centre

Apologies: Gwyn Williams

Present: Einir Williams (Vice Chair), Diane M Roberts, R Emlyn Williams, Elen H Edwards, D Gwynfor Davies, Ann O Vaughan, Gwydion Jones, Clwyd Roberts, Gerallt Evans, Cllr Garffild L Lewis and Clerk

69.1 Everyone was welcomed to the meeting and special welcome to the new members Clwyd Roberts and Gerallt Evans. Councilor Garffild Lewis and Sian Eirian were congratulated on their recent wedding.

69.2 DECLARATIONS OF INTEREST - Members were given an opportunity to declare interest on an item on the Agenda.

69.3 MINUTES - the minutes of the meeting held on the 28th June 2017 were looked at and it was unanimously RESOLVED that they were correct.

69.4 MATTERS ARISING
69.4.1 MAES CLEDWEN (68.3.1) - Cllr. Garffild Lewis received correspondence from Mr Gwynne Jones, Director of Cartrefi Conwy explaining the position of letting and selling of properties and that he was ready to attend a meeting of the Council. RESOLVED to invite Mr Jones to a meeting of the Council.
Elen H Edwards arrived at the meeting.
69.4.2 GWYTHERIN PLAYING FIELD (68.13.1) - there was a site meeting with officers from Conwy, Einir Williams, Emlyn Williams and the Clerk and it's nice to report that the work is currnetly being done.
69.4.3 LLANGERNYW 20 MPH SIGNS (68.13.7) - Cllr Lewis received an email explaining the background of the installation of 20 mph signs outside schools in the County and unfortunately it was not possible for them to place some in Llangernyw for different reasons. RESOLVED to ask what time of day the traffic survey was carried out in the village. Cllr Lewis was thanked for his help with this.
69.4.4 DOG CONTROL PROBLEMS (68.13.9) - it was reported that the problem was continuing and that a dog was loose in the Glan Collen estate and a dog walker passing through the school grounds. Need to ask if the officer can send a personal letter to owners.
D Gwynfor Davies arrived at the meeting.

69.5 ENVIRONMENTAL AND ROAD MATTERS - PONT AFON DYFFRYN GALL
Cllr Lewis received information from the department regarding the unfinished work on the bridge and that the bridge wall was narrower in the centre. The Council felt concerned about the closure of the bridge again and plenty of notice would be needed if necessary.

69.6 PLANNING MATTERS
69.6.1 Application No. 0/43874 Proposed agricultural building for storage of cattle, feeding and hay at Rhos y Mawn, Llangernyw by Mr G Williams - application withdrawn.
69.6.2 Application No. 0/44123 Proposed agricultural shed for livestock at land at Hafodty Bennett, Trofarth by Mr Geraint Roberts - RESOLVED unanimously to support the application

69.6.3 Harlequin Cottage, Llangernyw - a reply was received from the Planning Department indicating that the works on the porch and fence in the Conservation Area were acceptable to them after they had been painted.

69.7 CONWY COUNTY BOROUGH COUNCIL ELECTORAL REVIEW - after discussion RESOLVED to send the following comments to the Local Boundary and Democracy Commission for Wales - a) In order to obtain effective and convenient local government we believe that the county's arrangements should be left as they are and making wards biger would make it ineffective and inconvenient for councilors eg a wide area for them to travel. b) Electoral equity - we agree that this is very important and it must be remembered that there is a greater pressure on work on rural councilors due to distance and a number of different communities. c) Topography of the land - it must be remembered that the present communities form their own natural boundaries. d) The gap between the rural and urban areas - there is a big gap between the country and the town and so it is vital that the voice of the countryside is heard. We feel that the Welsh language will suffer if there is less rural representation on the County Council.
d) The Safeguarding Future Generations Act should be respected - that is why people in the countryside should be cared for to avoid 'loneliness and rural poverty'.
Also the Clerk to ask what kind of savings are made when making changes to the current system. The Clerk to contact the Chair before sending the comments and to ask One Voice if they were making any comments.

69.8 CLERK POSITION - information had been received regarding the salary and the small group was due to meet soon to proceed with the advertising arrangements.

69.9 FINANCIAL APPLICATION - an application was received from parent of Grace Charles, Llangernyw for a grant towards part of her studies in U.S.A. After discussion it was RESOLVED to put an item on the ‘Cronfa Bro Cernyw’ meeting Agenda to discuss a youth development grant scheme. RESOLVED to contribute £ 100 to Grace and to say that we are hoping to change the conditions of the Fund. It was suggested to ask Grace for a presentation to the Council following her course.

69.10 LLANGERNYW TOILETS AND BROWN SIGNS - due to the high cost of signage it was RESOLVED unanimously to leave the matter at the moment. Also to contact Steve Teale about paying for the legal costs of transferring the toilets. Outstandig money will need to be transferred towards the toilets from the Community Council to Menter Bro Cernyw after August.

69.11 PANDY TUDUR AND LLANGERNYW TELEPHONE KIOSKS - a message from BT asking for details re adopting the kiosks. RESOLVED that the Community Council would adopt both at £1 each.

69.12 THE LATE TECWYN EVANS ESTATE - a letter was received from Howell Jones Solicitors referring to a £ 1,000 financial donation to the Community Council to spend on the cemeteries. The Clerk to write to Medwyn Evans to thank and to note the donation in the press.

69.13 CEMETERIES COMMITTEE - Geralllt Evans and Clwyd Roberts were elected on the Cemeteries Committee with Emlyn Williams, Ann Vaughan and the Clerk.

69.14 HSBC - a translation of a letter from HSBC was received on our request stat and there was a note on our record with the bank stating that we wished to correspond through the medium of Welsh but it was not possible to send all letters bilingually.

69.15 GWYTHERIN BROADBAND - copies of correspondence received from a resident of the village re the desperate condition of the broadband connection. Discussions were ongoing with BT and Conwy County officials investigating the issue.

69.16 PROPOSALS TO THE ONE VOICE WALES/UN LLAIS CYMRU ANNUAL MEETING - a English only letter from the Chief Executive stated that our proposal was not accepted this time but as it was a matter of issue the topic of 'rural care in rural areas' will be sent to the regional committees to discuss it and to collect more factual information. RESOLVED to answer his letter stating our disappointment that it was and English-only letter.

69.17 LOCAL MATTERS
69.17.1 Need to put 'Defibrillator' on Agenda for next meeting. Einir Williams referred to 'Community Heartbeat Trust'.
69.17.2 Trees need to be trimmed at the bridge between Plas yn Trofarth and Henfryn.
69.17.3 Branch needs to be trimmed between Plas yn Trofarth and Gell.
69.17.4 Overgrown hedge at Glan Rhyd junction, Pandy Tudur - towards Llanrwst.
69.17.5 Growth needs to be trimmed in the white fence at Cefn Castell junction, Pandy Tudur.
69.17.6 Pandy Tudur sign at Glan Rhyd junction needs cleaning.
69.17.7 Cllr Garffild Lewis was asked if he could go around the villages with an officer from the County Council to see where work was needed.
69.17.8 Moss on the pavement between the Stag and the Cemetery gate on the Llansannan and moss on the Cemetery path..
69.17.9 Speeding through the village and on the Tyn Pistyll Hill, Llangernyw.
69.17.10 'Radiator' left near Capel Cefn Coch.
69.17.11 Need to give 'Gift in memory of Tecwyn Evans' on the Agenda of the next meeting.
69.17.12 Hendre House, Gwytherin's hedge needs trimming as it is growing over to the road.
69.17.13 Gwytherin park interior hedge - consent from an officer from Conwy was granted for volunteers to cut the hedge.

69.18 EXPENDITURE AND INCOME - the Clerk introduced a leaflet showing the Council's expenditure and income over the first quarter of the year.

69.19 BILLS
D Evans (Fourth Cemeteries cut) £ 380
Administrative Costs £ 901.53
Inland Revenue £ 10.40

The meeting concluded at 10.10 pm

Minutes Approved ....Gwyn Williams..... ..... Date....12/9/17.....